**EITEM AR YR AGENDA: 12**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mawrth 2015**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo'r adroddiad atodol.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

## Argymhelliad

4 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma ddegfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2014 hyd fis Mawrth 2015. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Daeth cyfnod swydd David Morris ar y pwyllgor i ben ar 31 Awst 2014. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

Bu i Mr Morris gadarnhau ei fod yn fodlon cael ei hail-benodi ac yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Rhagfyr 2014 cytunodd yr Aelodau i'r ail-benodiad.

Felly, mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

<u>Aelodau annibynnol</u>
Celia Blomeley 01/01/2014 - 31/12/17
Jane A Eyton-Jones 01/01/2014 - 31/12/17
David Morris 01/09/14 - 31/08/18
Antony P Young 01/04/12 - 30/03/16

<u>Aelodau Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Brian Dunn (18/06/12 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18/06/12 ymlaen)

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 4 Mawrth 2015 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
David Morris (Dirprwy Gadeirydd
Celia Blomeley
Antony P Young

Yn y cyfarfod hwnnw, cafodd yr aelodau ddiweddariad am gyfraith achosion diweddar am y cod ymddygiad a'r canllawiau newydd a ddaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nodwyd yr adroddiad yn briodol.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, bu un gŵyn yn erbyn aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub a deliwyd â'r mater o dan y broses datrys yn lleol. Felly, ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor eu harchwilio neu benderfynu.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliadau.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.